Polisi Rhestrau Darllen

1. Cyflwyniad

Mae Llyfrgelloedd Prifysgol Abertawe yn ymrwymedig i weithio gydag academyddion i nodi a darparu adnoddau sy'n cefnogi addysgu a dysgu. Diben y Polisi hwn yw pennu canllawiau a chyfrifoldebau wrth greu, darparu a chynnal Rhestrau Darllen.

Mae Rhestrau Darllen yn adnodd hanfodol wrth gynllunio modiwlau a rhoi canllaw clir i fyfyrwyr i ddeunydd perthnasol a fydd yn cefnogi eu dysgu. Dylai Rhestrau Darllen gynnwys adnoddau hanfodol sy'n ganolog i gyflawni amcanion dysgu'r modiwl, a dylent nodi adnoddau a argymhellir i annog myfyrwyr i archwilio pwnc ymhellach a meithrin gwybodaeth ddyfnach o'r pwnc. Mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd rhestrau darllen, fel y nodir yn Strategaeth Dysgu ac Addysgu 2019-24, ac mae'n ofynnol i gydlynwyr modiwlau israddedig ac ôl-raddedig a addysgir ddarparu rhestrau darllen.

2. iFindReading

Mae Llyfrgelloedd Prifysgol Abertawe'n defnyddio iFindReading fel meddalwedd i lunio a chynnal eu holl restrau darllen. Mae'r rhestrau iFindReading ar gael yn awtomatig yn Amgylchedd Dysgu Rhithwir y Brifysgol (Canvas) a gall myfyrwyr eu gweld wrth iddynt ymuno â'r cwrs. Mae cyfleuster llunio rhestr iFindReading yn galluogi academyddion i nodi deunyddiau darllen neu adnoddau hanfodol a rhai a argymhellir. Caiff academyddion gyrchu dadansoddeg sy'n gallu eu helpu i ddeall sut mae eu rhestrau darllen yn cael eu defnyddio.

Defnyddir rhestrau IFindReading gan y Llyfrgell i nodi adnoddau mae eu hangen ar gyfer casgliad y llyfrgell. Gall academyddion argymell eitemau i'w prynu nad ydynt ar gael ar hyn o bryd yn y Llyfrgell drwy ychwanegu manylion adnoddau at Restrau Darllen a'u dynodi'n Hanfodol neu Argymhellir. Bydd y Llyfrgell yn prynu fersiynau electronig o adnoddau oni cheir cais fel arall. Mae lefel mynediad yn seiliedig ar niferoedd myfyrwyr.

3. Rolau a Chyfrifoldebau

3.1 Rôl Cydlynydd y Modiwl neu'r Rhaglen

- Sicrhau bod rhestrau darllen modiwlau neu raglenni ar gael ac wedi'u diweddaru yn iFindReading
- Adolygu rhestrau darllen i sicrhau eu bod yn cynnwys adnoddau amrywiol a chynhwysol
- Dynodi adnoddau fel rhai Hanfodol neu Argymhellir drwy ychwanegu tag priodol yn iFindReading
- Bodloni dyddiadau cau cyflwyno Rhestrau Darllen a nodir yn y Polisi (Adran 4)
- Defnyddio'r opsiwn "Cais am ddigideiddio" yn iFindReading i ofyn am ddigideiddio penodau llyfr, darnau o destun ac erthyglau cyfnodolion pan nad yw'r rhain ar gael yn electronig.
- Cydymffurfio â thelerau Trwydded CLA'r Brifysgol, Polisi Defnydd Digidol Derbyniol y Brifysgol a glynu wrth gyfraith hawlfraint y DU. Am ragor o wybodaeth, darllenwch ein Canllaw Llyfrgell, "Fy Nghyfrifoldebau Hawlfraint".

3.2 Rôl y Llyfrgell

- Cydweithio ag academyddion i'w hannog i greu rhestrau darllen gan ddefnyddio iFindReading, gan gynnwys darparu hyfforddiant a chymorth i ddefnyddio'r feddalwedd.

- Nodi'r ffordd orau o ddarparu mynediad at ddeunyddiau darllen drwy gysylltu â chyflenwyr a chyhoeddwyr cymeradwy.
- Adolygu eitemau a ddynodir yn rhai Hanfodol ac Argymhellir o restrau i flaenoriaethu wrth brynu adnoddau.
- Darparu copïau sy'n cydymffurfio â chyfraith hawlfraint lle gofynnir am gopïau digidol. Lle nad oes modd digideiddio eitemau, awgrymu dewisiadau amgen.
- Monitro ac adolygu dadansoddeg data i gynorthwyo wrth reoli'r casgliad.
- Ymgysylltu'n rhagweithiol â darparwr y feddalwedd rhestrau darllen ynghylch gwelliannau i iFindReading er mwyn gwella'r profiad o restrau darllen ar gyfer academyddion a myfyrwyr.

4. Dyddiadau Cau i Gyflwyno Rhestrau Darllen

Gellir llunio neu ddiweddaru Rhestrau Darllen drwy gydol y flwyddyn. Dylid ychwanegu eitemau nad yw'r Llyfrgell yn berchen arnynt at iFindReading o leiaf 10 wythnos cyn bydd angen yr adnodd. Mae hyn yn caniatáu amser i brynu eitemau a'u darparu'n eang ynghyd â thrwyddedau priodol yn achos cynnwys electronig. Bydd y Llyfrgell yn ceisio cael gafael ar yr adnoddau sy'n cael eu hychwanegu ar ôl y dyddiad cau hwn; fodd bynnag, ni allwn addo y byddant ar gael i fyfyrwyr mewn pryd cyn dechrau'r modiwl.

5. Adolygu'r Polisi

Caiff y Polisi ei adolygu bob blwyddyn gan Grŵp Rhestrau Darllen Llyfrgelloedd Prifysgol Abertawe. Bydd adborth gan academyddion a myfyrwyr yn cael ei ystyried wrth wneud newidiadau.

Adnoddau Cefnogol

Polisi Datblygu a Rheoli Cynnwys

Canllaw'r Llyfrgell i iFind Reading

Strategaeth Dysgu ac Addysgu Prifysgol Abertawe 2019-24

Fersiwn 1.0 - Mawrth 2021